
# Gweirgloddiau gorlifdir yng Nghymru a Lloegr: Rheoli arfer gorau

Mae gweirgloddiau gorlifdir cyfoethog o ran eu blodau, a arferai fod yn gyffredin yn nyffrynnoedd afonydd, yn addasu'n berffaith i lifogydd, pori a thorri. Roeddent yn werthfawr iawn am fod eu gwair maethlon yn cadw anifeiliaid fferm yn fyw ac iach dros y gaeaf. Maent yn adfer yn dda ar ôl llifogydd, pan gaiff gwaddodion afon cyfoethog o ran eu maetholion eu dyddodi fel gwrtaith naturiol, ac maent yn gynhyrchiol yn ystod sychder oherwydd eu pridd ffrwythlon a'u planhigion gwreiddiau dwfn.



*Dim ond 3000 ha sy'n weddill erbyn hyn, 1% o'u hehangder blaenorol.*




Llun Gan: Mike Dodd

Mae'r rhan fwyaf o weirgloddiau gorlifdir traddodiadol cyfoethog o ran eu blodau wedi cael eu hadeiladu arnynt, wedi'u cloddio am fwynau, wedi'u draenio, wedi'u chwistrellu, wedi'u haredig neu wedi'u hail-hadu.

Rydym yn fwyfwy ymwybodol pa mor ddefnyddiol yw'r cynefinoedd hyn oherwydd y buddiannau niferus a ddarperir ganddynt:

- Systemau hunangynhaliol sy'n cynhyrchu cig iach a gwair heb fod angen cemegion.
- Helpu pryfed sy'n peillio fel gwenyn a phryfed hofran
- Storio carbon a llifddyfroedd
- Ail-feithrin priddoedd
- Gostwng lefelau siltio a llygredd mewn afonydd.



Llun Gan: Mike Dodd

## Gofynion rheoli

1. *Torri gwair yn flynyddol*
   Mae'r rhan fwyaf o weirgloddiau yn cael eu cau yn y gwanwyn, ac yna'u torri am wair pan fydd y glaswellt yn blodeuo ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf, yn dibynnu ar y tywydd. Mae'n rhaid torri bob blwyddyn er mwyn atal y llystyfiant rhag mynd yn arw ac er mwyn atal maeth rhag cronni. Mae gweirgloddiau heb eu rheoli'n colli amrywiaeth yn gyflym ac yn cael eu rheoli gan laswelltydd twmpathog a pherlysiau tal fel ysgall ac efwr.

   Mae'r cnwd o wair yn is nag ydyw o laswelltiroedd wedi'u rheoli'n ddwys, ond mae gwair o weirgloddiau yn hynod faethlon, gan gynnwys microfaetholion a chyfansoddion meddyginiaethol hanfodol ar gyfer iechyd da byw. Caiff y gwair o'r ansawdd gorau ei gynhyrchu o'r cymunedau planhigion cyfoethocaf.

   Mae union amseru'r torri yn dibynnu ar yr amodau tywydd mynychaf – mae angen torri gwair gweirgloddiau pan fydd yn barod, rhwng canol mis Mehefin a chanol mis Gorffennaf fel rheol.

2. *Ail doriad neu bori adladd*
   Os bydd digon o laswellt wedi tyfu erbyn mis Medi, caiff gweirgloddiau gorlifdir eu torri eto neu eu pori, a hynny gan wartheg fel arfer. Y peth gorau yw symud anifeiliaid sy'n pori pan fydd y pridd yn llawn dŵr er mwyn atal pridd rhag cywasgu. Ar safleoedd sychach, bydd da byw yn pori ar ddechrau'r gwanwyn cyn cau'r weirglodd unwaith eto am wair o ganol i ddiwedd mis Ebrill.



Llun gan: Alan Markham

3. *Seilwaith ffosydd a draenio*
   Mae cynnal a chadw ffosydd, gwteri a draeniau arwyneb yn rheolaidd yn helpu i symud llifddwr yn effeithlon ac yn cadw'r pridd yn awyrog, sy'n hollbwysig i gynnal gweirglodd amrywiol a chynhyrchiol.

4. *Rheoli planhigion ymwthiol neu annymunol*
   Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen rheoli planhigion fel creulys y gors, hesg swmpus neu ysgall y maes. Os oes modd, gwneir hyn gan ddefnyddio ffyrdd ffermwrol fel torri, yn hytrach na defnyddio chwynladdwyr a all fod yn niweidiol iawn.

## Pwyntiau allweddol

**Mae torri'r gwair yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn cynnal amrywiaeth. Mae angen i amser torri a phori ymateb i amodau ym mhob blwyddyn yn hytrach na chael ei benderfynu gan ddyddiadau calendr penodol.**

**Nid oes angen gwrteithiau a chwynladdwyr artiffisial a byddant yn niweidiol. Gellir rheoli chwyn trwy dorri yn hytrach na chwistrellu.**

## Ble i gael cyngor

Gellir dod o hyd i lawer mwy o gyngor manwl ar ein gwefan: www.floodplainmeadows.org.uk

Mae Llysgenhadon FMP wedi'u hyfforddi ac maent ar gael mewn sawl sir i roi cyngor yn lleol.

Gweler nodyn cyngor 'Adfer a chreu gweirgloddiau gorlifdir newydd yng Nghymru a Lloegr'

Gall Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig cyngor ar reoli gweirgloddiau gorlifdir, yn enwedig os ydych yn rhoi cymorth drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd.

Gall eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lleol gynnig arweiniad a chyngor www.wildlifetrusts.org

Gall Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) a Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwybodaeth am lifogydd ac ansawdd dŵr, yr angen am asesiadau risg o lifogydd a thrwyddedau eraill os ydych yn cynllunio unrhyw waith.

Floodplain Meadows Partnership

The Open University